**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: ruraldev.comm@cymru.gov.uk



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

**Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig**

Sefydlir yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn ystyried ac adrodd ar faterion sy'n effeithio ar Ddatblygu Gwledig. Mae'n is-bwyllgor o'r Pwyllgor Cynaliadwyedd a'i gylch gwaith yw craffu ar Lywodraeth Cymru ar feysydd cyfrifoldeb y Llywodraeth y mae'r is-bwyllgor yn credu sy'n effeithio ar ddatblygu gwledig.

**Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2007 fel Is-bwyllgor i Bwyllgor Cynaladwyedd y Cynulliad. Mae ei bwerau wedi eu gosod allan yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig RhS 12. Mae'r rhain ar gael ar www.cynulliadcymru.org <http://www.cynulliadcymru.org>

**Aelodau'r Pwyllgor**

| *Aelod Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Joyce Watson | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Brynle Williams | Plaid Geidwadol Cymru | Gogledd Cymru |
| Kirsty Williams | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

Roedd yr Aelod(au) canlynol hefyd yn aelodau'r Pwyllgor yn ystod y Cynulliad hwn:

| | | |
|---|---|---|
| Alun Davies | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Democrat Rhyddfrydol Annibynnol | Sir Drefaldwyn |
| Mike German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Elin Jones | Plaid Cymru | Ceredigion |
| Alun Ffred Jones | Plaid Cymru | Arfon |

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ..... 5

Rôl a Chylch Gwaith ..... 5

Yr angen am Bwyllgor Datblygu Gwledig i'r dyfodol ..... 5

**2. Etifeddiaeth Olynydd-Bwyllgor(au)** ..... 8

Casglu Tystiolaeth yn Llwyddiannus ..... 8

Gwaith Parhaus ..... 8

Glastir ..... 8

Diwygio'r PAC ..... 9

Gwasanaethau Hylendid Cig ..... 9

Meysydd y methodd y Pwyllgor eu cyrraedd ..... 10

Gwasanaethau Cynghori Ffermwyr ..... 10

Adolygu Biwrocratiaeth yn y Diwydiant Ffermio ..... 10

Proses Apeliadau Annibynnol ..... 11

Chwilio'r gorwel ..... 11

Coedwigaeth ..... 11

Ombwdsmon Archfarchnadoedd ..... 12

Rhannu Costau Iechyd Anifeiliaid ..... 12

Darpariaeth Iechyd yng Nghefn Gwlad ..... 12

Cau Colegau Amaethyddol a Hyfforddiant ar gyfer Sgiliau Gwledig ..... 13

# 1. Cyflwyniad

**Rôl a Chylch Gwaith**

1. Sefydlwyd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ym mis Gorffennaf 2007 yn is-bwyllgor i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd. Cytunwyd i sefydlu hwn yn is-bwyllgor parhaol er mwyn ystyried materion a oedd yn berthnasol i ddatblygu gwledig.

2. Yr oedd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn awyddus i sefydlu Is-bwyllgor Datblygu Gwledig er mwyn sicrhau y gellid neilltuo digon o amser ar gyfer y materion allweddol hyn. Cydnabyddiaeth o ystod y materion sy'n wynebu cefn gwlad Cymru yw'r ffaith y penderfynwyd na fyddai gwaith yr Is-bwyllgor yn ymdrin ag amaethyddiaeth yn unig.

3. Cyfarfu'r Is-bwyllgor 68 o weithiau yn ystod oes y Trydydd Cynulliad. Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried ystod o bynciau, a chynhyrchwyd 14 o adroddiadau ganddo. Mae copïau o holl adroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau cyfarfodydd yr Is-bwyllgor ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

4. Hoffai'r Is-bwyllgor ddiolch i bob un a ddarparodd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar yn ystod y Trydydd Cynulliad. Bu hyn yn werthfawr iawn yn goleuo gwaith yr Is-bwyllgor.

5. Hoffem hefyd roi diolch i bob Aelod arall sydd wedi bod yn rhan o waith yr Is-bwyllgor, yn arbennig Alun Davies a gadeiriodd yr Is-bwyllgor rhwng 2007 a 2010. Ymhellach at hynny, hoffem roi diolch i Andrew RT Davies AC, sydd wedi dirprwyo dros Brynle Williams ers mis Medi ac sydd wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy i'r Is-bwyllgor. Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau i Brynle ac yn dymuno gwellhad buan iddo.

**Yr angen am Bwyllgor Datblygu Gwledig i'r dyfodol**

6. Mae datblygu gwledig yn greiddiol i fynd i'r afael â rhai o'r prif heriau y bydd Cymru'n eu hwynebu yn y blynyddoedd i ddod, yn enwedig yng nghyswllt lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd, ymdrin ag allyriadau carbon, a sicrhau diogelwch yng nghyswllt bwyd a'r amgylchedd.

7. Yn ogystal â bod yn faes polisi pwysig, mewn trafodaethau gydag aelodau'r gymuned wledig mewn digwyddiadau megis Ffair Aeaf y Sioe

Frenhinol, tanlinellwyd cymaint oedd gwerth yr Is-bwyllgor presennol i bobl, a'r modd roedd yn gallu ymgysylltu â'r materion sy'n wynebu cefn gwlad Cymru.  Er enghraifft, roedd Gwenda Thomas o'r Grŵp Cynghori Lles Ffermydd yn canmol yr Is-bwyllgor am yr ymweliad a'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer ymchwiliad Glastir, a siaradodd Wyn Williams o Dunbia a Peter Morris o'r Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol am werth ymchwiliad y Ddyfais Adnabod Electronig.

8. Yn ystod sesiwn dystiolaeth i'r pwyllgor yn adolygu gwaith yr Is-bwyllgor, dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru wrth yr Is-bwyllgor:

> "First, on behalf of the NFU, I thank you, members of the sub-committee and the staff working for the sub-committee over the full term of the third Assembly, for undertaking inquiries and for producing reports on a wide range of issues of vital importance to agriculture and the rural economy in Wales. The sub-committee has produced a number of well-written and researched reports that have highlighted the concerns of our industry and have provided sensible recommendations to the Minister on the way forward on a wide range of topics and policy issues. ... We believe that it is vitally important that this sub-committee is retained by the fourth Assembly."

A dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru:

> "As is stated clearly in our evidence, it is important to emphasise, as Ed has already done, the importance of this sub-committee and the fact that it gives credence to the importance of agriculture and rural development to Wales's economy, which has been underestimated for a long time, but is becoming more properly recognised as time goes on."

9. Yn ogystal â sicrhau bod safbwyntiau'r gymuned wledig yn cael eu clywed o fewn y Cynulliad, mae'r Is-bwyllgor wedi ceisio sicrhau bod safbwyntiau Cymru fel Llywodraeth ranbarthol yn Ewrop wedi cael llais drwy lobïo ym Mrwsel ac anfon sylwadau i'r ymchwiliadau pwyllgor perthnasol yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn Nhŷ'r Arglwyddi fel ei gilydd.  Mae datblygu gwledig yn faes lle mae angen i'r Cynulliad ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel Ewropeaidd, ac mae'r Is-bwyllgor wedi llwyddo i wneud hyn yn effeithiol.

10. Yn ystod oes y Pedwerydd Cynulliad, gwneir nifer o benderfyniadau pwysig ynghylch cyllid i ffermwyr, sef diwygio'r PAC a rhoi trefn derfynol ar gynllun Glastir. Bydd canlyniadau'r penderfyniadau hyn yn cael effaith sylweddol ar gefn gwlad Cymru. Er mwyn sicrhau bod gan Gymru lais cryf yn Ewrop, ac mewn trafodaethau gyda'r Llywodraeth nesaf ynghylch cynlluniau amaeth-amgylcheddol, credwn fod Pwyllgor sydd â chylch gwaith i edrych yn benodol ar Ddatblygu Gwledig yn bwysig.

11. O'r herwydd, credwn y dylid buddsoddi amser sylweddol yn ystod oes y Pedwerydd Cynulliad yn craffu polisïau datblygu gwledig a deddfwriaeth drwy sefydlu Is-bwyllgor gan y rhiant-bwyllgor perthnasol. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod gan faterion gwledig yr un proffil yn ystod oes y Pedwerydd Cynulliad ag yn y Trydydd, gyda'r nod o sicrhau ymgysylltiad llawn â chyfran arwyddocaol o'r boblogaeth.

## 2. Etifeddiaeth Olynydd-Bwyllgor(au)

### Casglu Tystiolaeth yn Llwyddiannus

12. Mae'r Is-bwyllgor wedi ceisio cyrraedd cynulleidfa eang ac mae wedi casglu tystiolaeth drwy amrywiol ffyrdd. Ymgymerasom â sawl ymweliad â chymunedau gwledig ledled Cymru, a chawsom lawer iawn o atborth cadarnhaol i'r dull hwn o weithredu. Yn benodol, canfu'r Is-bwyllgor bod y fformat o ystyried pwnc mewn diwrnod, drwy gynnal ymweliad canfod ffeithiau yn y bore a chyfarfod ffurfiol yn y prynhawn, yn ddull effeithiol o graffu. Cyflawnwyd ymchwiliad Dyfais Adnabod Electronig ac ymchwiliad Glastir, y naill a'r llall, drwy ddefnyddio'r dull hwn.

13. Oherwydd natur yr Is-bwyllgor – cymharol fach a chyda ffocws penodol – roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn gallu ymateb yn gyflym a chanolbwyntio ar faterion perthnasol a oedd yn wynebu cefn gwlad Cymru, megis Dileu TB, y Ddyfais Adnabod Electronig a'r Diwydiant Llaeth. Gwnaeth yr hyblygrwydd hwn argraff dda ar randdeiliaid a'r cyhoedd. Ar ben hynny, ystyriodd yr Is-bwyllgor ddeiseb gan Grŵp Gweithredu Cymunedol Powys ynghylch y bwriad i gau ysgolion ym Mhowys - gan ehangu hyn i ystyried effaith cau ysgolion gwledig.

### Gwaith Parhaus

14. Gydol yr ymchwiliadau a gynhaliwyd gan yr Is-bwyllgor, roedd nifer o themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro ynghylch yr angen i gynyddu caffael lleol, manteision brandio Cymreig a'r angen am ombwdsmon i reoleiddio'r archfarchnadoedd. Mae'n debygol y bydd gan y themâu hyn le amlwg mewn pwyllgor a fydd yn ystyried materion gwledig i'r dyfodol.

15. Yn ystod oes y Trydydd Cynulliad, bu'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ystyried sawl mater yn ymwneud â chyllid ar gyfer ffermwyr, yn gyntaf drwy adolygu Echel 2 y Cynllun Datblygu Gwledig ac wedyn drwy'r ymchwiliad i Glastir a diwygio'r PAC. **Gan fod gwaith yn parhau o hyd o ran datblygu'r polisïau hyn a phennu'r agenda ar gyfer y dyfodol, byddem yn argymell bod pwyllgor i'r dyfodol yn gweithredu ar y meysydd allweddol hyn.**

### *Glastir*

16. Ysgrifennodd yr Is-bwyllgor at y Gweinidog ynghylch Glastir am y tro cyntaf yn dilyn ymchwiliad byr ym mis Chwefror 2010. Ar ôl iddo

gael ei lansio, dim ond 2904 a dderbyniodd y cynllun yn wreiddiol, ac roedd hyn yn sylweddol is na nifer y cyfranogwyr mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill. Yn wyneb nifer siomedig y ceisiadau, sefydlodd y Gweinidog grŵp adolygu ar gyfer Glastir, a gyflwynodd adroddiad ym mis Mawrth 2011. Cyfarfu'r Is-bwyllgor â Rees Roberts, Cadeirydd y grŵp hwn ddiwedd mis Mawrth. Erys pryder mawr o hyd ynglŷn â'r cynllun hwn a dylai unrhyw bwyllgor i'r dyfodol ystyried adolygu'r cynllun hwn ymhellach a chyfrannu at y posibilrwydd o'i ail-ddylunio.

### *Diwygio'r PAC*

17. Cyhoeddodd yr Is-bwyllgor ei adroddiad ynghylch diwygio'r PAC ym mis Gorffennaf 2010. Mae'r gwaith o lunio polisi newydd ar y gweill a byddai'n ddoeth i unrhyw bwyllgor i'r dyfodol a fydd yn ystyried materion gwledig fonitro'r gwaith hwn a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cyflwynodd yr Is-bwyllgor grynodeb o'u hadroddiad i Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ac fe gynhwyswyd tystiolaeth yr Is-bwyllgor yn yr adroddiad gan y Pwyllgor Dethol ar yr Undeb Ewropeaidd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

18. Ymwelodd yr Is-bwyllgor â Brwsel hefyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn er mwyn trafod â rhanddeiliaid allweddol ledled Ewrop, ac fe brofodd hyn yn fuddiol iawn. Yn ystod sesiwn dystiolaeth gydag undebau'r ffermwyr, awgrymwyd bod yna fethiant sylweddol ar ran Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn ddigon buan yn y drafodaeth hon ar lefel Ewrop a'r DU. Cynhyrchodd George Lyons ASE adroddiad dylanwadol ynghylch diwygio'r PAC a fu'n sail i safbwynt Senedd Ewrop ynghylch y polisi. Byddem yn argymell bod pwyllgor i'r dyfodol yn cwrdd â George Lyons, o bosib yn ystod tymor yr hydref, i drafod y gwaith parhaus yn y maes hwn.

### *Gwasanaethau Hylendid Cig*

19. Cynhyrchodd yr Is-bwyllgor adroddiad ynghylch Hylendid Bwyd a Lles Anifeiliaid ym mis Mai 2010. Ystyriodd uno'r Gwasanaeth Hylendid Cig â'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a ddigwyddodd ar 1 Ebrill 2010, a chynigion yr Asiantaeth i symud tuag at adennill costau llawn gan y diwydiant.

20. Cyhoeddodd yr Asiantaeth ymgynghoriad ynghylch *Dull newydd o godi tâl am reolaethau swyddogol ar gig*: *sicrhau effeithlonrwydd a newid*, ym mis Tachwedd 2010, a daeth hwn i ben ym mis Chwefror 2011. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn pobl ynghylch y cynigion

i godi tâl am reolaethau swyddogol cig mewn gweithfeydd cig. Dylai canlyniadau'r ymgynghoriad hwn gael eu cyhoeddi ym mis Mai 2011.

21. Yn wyneb y pryderon a fynegwyd gan yr Is-bwyllgor yn eu hadroddiad cychwynnol, a'r effaith bosib y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar hyfywedd nifer o ladd-dai bach i ganolog eu maint yng Nghymru, mae hwn yn faes y dylai pwyllgor i'r dyfodol ei ystyried er mwyn gwerthuso'r effaith ar Gymru.

**Meysydd y methodd y Pwyllgor eu cyrraedd**

22. Yn eu trafodaethau â rhanddeiliaid a chyrff perthnasol eraill, dynododd yr Is-bwyllgor nifer o feysydd ar gyfer eu blaenraglen waith. Fodd bynnag, ni lwyddasom i ymdrin â'r holl bynciau hyn oherwydd amseriad adolygiad Glastir a'r angen i ystyried diwygio'r PAC yn brydlon.

***Gwasanaethau Cynghori Ffermwyr***

23. Mae gwasanaethau cynghori ffermwyr, a ddarperir yn bennaf ar hyn o bryd drwy gyfrwng Cyswllt Ffermio, yn cynnwys ystod o wasanaethau cynghori, hyfforddi a chefnogi a ariennir naill ai'n llwyr neu'n rhannol, sy'n ymdrin â meysydd megis rheoli busnes, cydymffurfiad amgylcheddol, arallgyfeirio, cynllunio, cynlluniau fferm cyfan a rhaglenni datblygu sgiliau. Yn wyneb y rôl bwysig a briodolir i'r gwasanaeth yn y gwaith o gyflawni nifer o gynlluniau gweithredu a pholisïau'r Llywodraeth, roedd yr Is-bwyllgor yn bwriadu edrych ar bob agwedd ar wasanaethau cynghori ffermwyr yng Nghymru.

24. Ymhellach, gellid archwilio'r defnydd a wneir o Gyswllt Ffermio o ran datblygu cadwynau cyflenwi, datblygu ac arallgyfeirio. Mewn arolwg diweddar o ffermwyr a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd, dywedodd yr Athro Terry Marsden wrth yr Is-bwyllgor nad oedd 41% o ffermydd yn defnyddio Cyswllt Ffermio, prawf o botensial ar gyfer datblygu cysylltiadau pellach rhwng y diwydiant a'r cyngor sydd ar gael ynghylch tyfu busnesau ac arallgyfeirio. Awgrymodd yr Athro Marsden hefyd fod yna rôl y gallai Cyswllt Ffermio ei chyflawni yn cyfleu gwybodaeth ynghylch blaen-gytundebau (prisio'r gost a'r elw) i grwpiau perthnasol.

***Adolygu Biwrocratiaeth yn y Diwydiant Ffermio***

25. Yn dilyn yr adroddiad cynnydd gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar waith grŵp rhanddeiliaid yr Adolygiad Biwrocratiaeth ym

mis Mehefin 2009, bwriad yr Is-bwyllgor oedd cyflawni adolygiad cryno o fiwrocratiaeth o fewn y diwydiant, er mwyn ystyried diwygiadau posibl a allai arwain at leihau biwrocratiaeth. Ychydig a gyhoeddwyd gan y grŵp hwn, ac fe awgrymwyd bod hwn yn faes y gallai hi fod yn fuddiol i Bwyllgor Cynulliad edrych arno i'r dyfodol.

### *Proses Apeliadau Annibynnol*

26. Yn ystod oes y Cynulliad Cyntaf, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Banel Apeliadau Annibynnol ar gyfer ffermwyr i ddyfarnu mewn materion a oedd yn ymwneud â chymorthdaliadau amaethyddol ac ysgafnhau baich gwaith papur i ffermwyr.

27. Derbyniodd yr Is-bwyllgor dystiolaeth bod ffermwyr yn cael cosbau oherwydd mân wallau yn y gwaith papur, a'r effaith sylweddol y mae hyn yn gallu ei chael ar hyfywedd ffermydd. Yr oedd llythyr gan Gareth Vaughan, llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, yn datgan:

> "Examples include families affected by personal tragedies losing significant sums due to minor errors on paperwork, despite these being the direct result of exceptional circumstances, and farmers losing their entire incomes for periods of more than a year due to inadvertent minor errors being made while filling out complex forms."

28. Yr oedd yr Is-bwyllgor yn teimlo y byddai'n fuddiol adolygu'r broses apeliadau annibynnol yn wyneb yr amser a aeth heibio ers ei sefydlu a'r newidiadau posibl i'r system daliadau cymorthdaliadau amaethyddol a allai ddeillio o ddiwygio'r broses PAC.

## Chwilio'r gorwel

### *Coedwigaeth*

29. Cyhoeddwyd strategaeth Coetiroedd i Gymru ym mis Mawrth 2009 a gwnaeth y Gweinidog dros Faterion Gwledig ddatganiad pellach ar 1 Chwefror 2011 ynghylch Coedwigaeth yng Nghymru. Mae hwn yn faes arwyddocaol o gymhwysedd datganoledig yng Nghymru, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru, ac nid yw eto wedi'i ystyried mewn unrhyw fanylder gan Bwyllgor Cynulliad. Yn wyneb cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer coedwigaeth yn Lloegr a'r ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i gynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru mewn corff cyflenwi amgylcheddol newydd, byddem yn argymell bod Pwyllgor

Cynulliad yn ystyried y maes polisi hwn yn nyddiau cynnar y 4ydd Cynulliad.

### *Ombwdsmon Archfarchnadoedd*

30. Dynododd Llywodraeth y DU bod Bil i sefydlu ombwdsmon archfarchnadoedd yn debygol o gael ei gyhoeddi yn ail sesiwn y Senedd, a gallai pwyllgor i'r dyfodol ddymuno ystyried y Bil hwn er mwyn sicrhau bod yr ombwdsmon yn cael ei sefydlu gydag ystyriaeth ddyledus i faterion Cymreig.

### *Rhannu Costau Iechyd Anifeiliaid*

31. Ysgrifennodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig at yr Is-bwyllgor ym mis Ionawr 2010 ynghylch y Mesur iechyd anifeiliaid drafft. Roedd y Mesur drafft hwn yn cynnwys cynigion ar gyfer gweithredu elfennau 'cyfrifoldeb' yr Agenda Cyfrifoldeb a Rhannu Costau yn Lloegr, ond roedd yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n cael eu hymarfer gan Weinidogion Cymru yng nghyswllt taliadau am ladd, brechu a samplo. Yn eu cytundeb clymblaid, pennodd Llywodraeth y DU ymrwymiad i archwilio ffyrdd o rannu cyfrifoldeb dros baratoi ar gyfer, a delio ag, achosion o glefyd gyda cheidwaid da byw.

32. Cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig ar 14 Mawrth 2011, a oedd yn pennu datganoli Cyllidebau Iechyd a Lles Anifeiliaid oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae hyn yn trosglwyddo cyfrifoldeb dros y maes hwn i Gymru.

33. Dylai pwyllgor i'r dyfodol, a fydd â chyfrifoldeb dros amaethyddiaeth/materion gwledig, fonitro cynigion y dyfodol yn y maes hwn gyda golwg ar weithredu proses graffu ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth/polisi a fydd yn ymddangos yn y maes hwn.

### *Darpariaeth Iechyd yng Nghefn Gwlad*

34. Wrth gytuno i ystyried cylch gwaith ehangach nag amaethyddiaeth yn unig, nod yr Is-bwyllgor oedd ystyried nifer o feysydd polisi a oedd yn berthnasol i fywyd yng nghefn gwlad. Un maes arwyddocaol na roddwyd sylw iddo gan yr Is-bwyllgor hwn yw'r Ddarpariaeth Iechyd yng Nghefn Gwlad. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'n Un Gynllun Iechyd Gwledig ym mis Rhagfyr 2009, a chyhoeddodd ddarpariaeth o Gronfa Arloesi Iechyd Gwledig werth £1m ym mis Ebrill 2010. Nod y gronfa hon oedd datblygu atebion arloesol ar gyfer gwella ac integreiddio gwasanaethau i ddarparu gofal mewn cymunedau

gwledig. Yn wyneb yr heriau sy'n wynebu ardaloedd o gefn gwlad Cymru o ran cael mynediad at ofal iechyd, byddai'n amserol i Bwyllgor Cynulliad gynnal adolygiad o'r cynllun hwn, a'r cyllid cysylltiol, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n effeithiol i gymunedau gwledig.

### *Cau Colegau Amaethyddol a Hyfforddiant ar gyfer Sgiliau Gwledig*

35. Yr oedd yr Is-bwyllgor yn awyddus i ystyried darpariaeth hyfforddiant ar gyfer sgiliau gwledig yn wyneb lleihad yn nifer y colegau amaethyddol yng Nghymru.

36. Derbyniwyd tystiolaeth gan nifer o ymchwiliadau'r Is-bwyllgor megis y diwydiant llaeth, bwyd, ffermydd awdurdodau lleol, dyfodol yr ucheldir a phwysigrwydd sicrhau llif o bobl ifanc hyfedr i'r diwydiannau bwyd ac amaethyddiaeth yng Nghymru. Yr ydym yn pryderu y gallai lleihau nifer y colegau amaethyddol yng Nghymru olygu ei bod hi'n bosibl na fydd y llif hwn o bobl hyfedr i gefn gwlad Cymru yn digwydd. Gallai pwyllgor i'r dyfodol archwilio sut y gallwn sicrhau nad yw llif pobl ifanc hyfforddedig i'r diwydiant yn dioddef oherwydd lleihau'r ddarpariaeth gan golegau amaethyddol.